Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Botwnnog
# Botwnnog
# Llŷn
# Gwynedd
# LL53 8PY

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Botwnnog

Mae Ysgol Botwnnog yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed sydd yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Botwnnog, ac yn gwasanaethu dalgylch gwledig eang ym Mhenrhyn Llŷn. Mae'n ardal sydd wedi ei dynodi'n ardal o brydferthwch naturiol eithriadol a'r prif ddiwydiannau yw amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae 446 o ddisgyblion ar y gofrestr o gymharu â 419 adeg yr arolygiad blaenorol yn Ionawr 2014.

Mae 8.2% o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, cyfran sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%. Mae 12.7% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol o 22.5%. Mae gan 1.3% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol o 2.2%.

Mae tri chwarter y disgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Fodd bynnag, mae 98% o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a phrif gyfrwng yr addysgu yw'r Gymraeg.

Daw ychydig iawn o ddisgyblion o grwpiau lleiafrifol ethnig ac nid oes disgyblion sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cafodd y pennaeth ei benodi yn Ebrill 2015. Yn ogystal â'r pennaeth, mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys un dirprwy bennaeth a ddechreuodd yn y swydd ym mis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Botwnnog yn ysgol ofalgar a chlòs sydd yn chwarae rhan allweddol yn ei chymuned leol. Mae arweinyddiaeth gadarn wedi sicrhau ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn ymysg disgyblion a staff yr ysgol. Mae wedi arwain hefyd at safonau lles eithriadol ac addysgu o ansawdd uchel.

Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn ardderchog ac mae llawer yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r ysgol a'r ardal trwy weithgareddau allgyrsiol ac elusennol. Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn gryfder nodedig. Maent yn gwrtais a moesgar ac yn dangos parch at gyfraniadau eu cyfoedion ac athrawon yn y gwersi. Medda'r disgyblion ar fedrau cymdeithasol aeddfed a chaboledig. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Mae darparu gofal a chymorth o'r radd flaenaf ac arlwy gyfoethog o brofiadau dysgu yn greiddiol i waith yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar gefnogaeth gynhwysfawr, addysgu cadarn ac amryfal brofiadau gwerthfawr sydd yn ehangu eu gorwelion ac yn cyfrannu'n bwysig at eu hunaniaeth Gymreig.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi disgwyliadau athrawon mewn ychydig o achosion i godi safonau y disgyblion mwyaf galluog.

A2 Gwella safonau medrau'r disgyblion, yn benodol eu mynegiant ysgrifenedig a'u huwch fedrau darllen.

A3 Mynd i'r afael â'r ddyled ariannol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Ysgol Botwnnog yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

Bydd Estyn yn gwahodd Ysgol Botwnnog i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â darpariaeth yr ysgol ar gyfer lles, gofal, cymorth ac arweiniad, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi ac mewn arholiadau allanol. Maent yn adalw gwybodaeth flaenorol yn effeithlon ac yn cymhwyso'u medrau'n effeithiol.

Mae medrau llafar disgyblion yn gryfder. Mae bron bob un disgybl yn gwrando'n astud ac yn barchus ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Mae llawer o ddisgyblion yn siaradwyr huawdl a hyderus yn y Gymraeg. Defnyddiant dafodiaith gyfoethog a Chymraeg idiomatig, fywiog. Mae llawer yn awyddus i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, er enghraifft wrth astudio a gwerthuso gwaith John Piper mewn celf ac wrth drafod arwyddocâd y themâu yn y gerdd 'Walker's Wood' yn y gwersi Cymraeg. Mae llawer yn defnyddio termau pynciol yn fedrus wrth drafod pynciau cymhleth fel disgyrchiant, gwrthiant gwynt a buanedd terfynol. Fodd bynnag, mae ychydig yn cynnig ymatebion cyfyngedig ar lafar ac mae ychydig yn dawedog ac yn amharod i gyfrannu at drafodaethau.

Mae llawer yn darllen yn hyderus er mwyn lleoli ffeithiau a chywain gwybodaeth. Maent yn dadansoddi testunau llenyddol a ffeithiol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddadansoddi ffynonellau am ferched Beca ac Owain Glyndŵr mewn hanes. Mae'r mwyafrif yn dehongli a dadansoddi testunau llenyddol yn sensitif. Maent yn defnyddio geirfa dechnegol briodol ac yn cynnwys dyfyniadau pwrpasol. Mae lleiafrif yn gwneud hyn yn gelfydd, gan arddangos dealltwriaeth aeddfed a chraff o destunau, er enghraifft wrth gymharu cerddi serch yn eu gwersi Saesneg.

Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ac yn estynedig, mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at bwrpasau gwahanol. Meddant ar eirfa gyfoethog a choeth a chystrawen gadarn, er enghraifft wrth ddisgrifio eu milltir sgwâr yn yr haf a'r gaeaf: ''Mae'r olygfa o Llangwnadl yn hudolus wrth weld y môr a'r mynyddoedd yn y pellter Ond pan mae storm mae'r cesyg gwynion ffyrnig yn tasgu yn erbyn y creigiau.'' Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu trawiadol iawn. Er enghraifft wrth werthfawrogi a chymharu dau ddarn o gerddoriaeth gyferbyniol fel cân bop a darn clasurol ac wrth ysgrifennu chwedl wreiddiol yn egluro tarddiad enw lle diddorol ym Mhen Llŷn. Mae camgymeriadau sillafu a gramadeg esgeulus yn britho gwaith lleiafrif o ddisgyblion. Nid yw'r disgyblion hyn yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros gywiro eu gwaith a sicrhau ei fod o'r ansawdd gorau.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif cryf a gallant eu cymhwyso i sefyllfaoedd amrywiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, maent yn hyderus i weithio gyda rhifau yn y ffurf safonol pan fyddant yn ystyried diamedrau sêr, planedau a'r galaethau a gweld y cysylltiad rhwng y rhifau hyn. Gall llawer o ddisgyblion lunio graffiau yn gywir a dod i gasgliadau synhwyrol, er enghraifft wrth edrych ar y berthynas rhwng tymheredd yr hylif a'r amser a gymerir i sylwedd hydoddi. Mae ychydig o ddisgyblion yn ansicr gyda medrau rhif elfennol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol i ymchwilio , a chyflwyno, gwybodaeth mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae lleiafrif yn defnyddio eu huwch fedrau TGCh yn

fedrus, er enghraifft wrth drafod fformiwlâu cymhleth mewn taenlenni mewn mathemateg a defnyddio meddalwedd cyfansoddi er mwyn creu cerddoriaeth gefndirol â naws arbennig ar gyfer ffilm.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol ar draws y pynciau. Er enghraifft, mewn mathemateg, llwyddant i feddwl a gweld y cysylltiad rhwng gwaith algebra a gwaith syrdiau pan fyddant yn diddymu cromfachau neu wrth drafod effaith y model trawsnewid demograffig mewn daearyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl annibynnol yn ddigon effeithiol oherwydd diffyg cyfleoedd yn y gwersi i resymu a dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau newydd.

Mae medrau creadigol y disgyblion yn nodwedd arbennig. Maent yn arddangos eu creadigrwydd ar draws ystod eang o weithgareddau o fewn eu gwersi, er enghraifft wrth baratoi prototeip ar gyfer eu prosiectau ymarferol mewn technoleg ac wrth greu brasluniau yn efelychu arddull Peter Prendergast. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol yn ystod gwersi addysg gorfforol ac mewn clybiau chwaraeon poblogaidd, er enghraifft wrth gynllunio, ymarfer a pherfformio 'tymbl' yn y gampfa ac addasu ymarferion ar orsafoedd cylchedau er mwyn cwrdd â thargedau ffitrwydd

Dros y cyfnod 2016-2018 mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 wedi bod yn amrywiol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Cymuned ofalgar, glòs a Chymreig lle mae pob unigolyn yn bwysig yw Ysgol Botwnnog. Nodwedd arbennig o'r ysgol hon yw'r ffaith bod bron bob un o'r disgyblion yn groesawgar ac yn trin ei gilydd ac oedolion eraill â pharch. Maent yn arddangos medrau cymdeithasol aeddfed a chaboledig.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt. Mae bron bob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio yn effeithiol gydag unrhyw achosion prin o fwlio. Maent yn gwrtais a moesgar ac yn dangos parch at gyfraniadau eu cyfoedion ac athrawon yn y gwersi. Yn ogystal, meddant ar fedrau cymdeithasol arbennig ac maent yn ddisgyblion cynnes, gwâr a chyfeillgar.

Mae agwedd gadarnhaol bron bob un o'r disgyblion at ddysgu yn nodwedd eithriadol. Mae bron bob un yn cyrraedd eu gwersi yn brydlon, gan ymdawelu yn gyflym a throi yn syth at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar dasg trwy gydol y wers. Gwelir bron bob un ohonynt yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau, gan ryngweithio â'i gilydd yn aeddfed a doeth, er enghraifft wrth drafod achosion a rhesymau dros ddigartrefedd yn y gwersi Saesneg.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos balchder yn niwyg eu gwaith. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn ddeallus i dargedau eu hathrawon er mwyn symud eu dysgu

yn ei flaen, er enghraifft wrth ailddrafftio tasgau ysgrifenedig estynedig mewn Ffrangeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn arddangos chwilfrydedd amlwg yn eu gwersi. Maent yn cymryd gwir ddiddordeb yn eu gwaith ac yn dangos dyfalbarhad a dycnwch wrth wynebu gwaith heriol. Mae bron bob un yn hyderus yn gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae llawer ohonynt yn datrys problemau yn llwyddiannus wrth weithio mewn parau pan fo cyfleoedd gwerthfawr yn y gwersi.

Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut y dylid byw'n iach trwy ddeiet ac ymarfer corff ac mae llawer ohonynt yn cyfranogi mewn gweithgarwch corfforol yn gyson, er enghraifft chwaraeon tîm, pêl fasged a badminton.

Mae llawer o'r disgyblion yn flaengar wrth ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn hyfforddi amrywiol chwaraeon i'r disgyblion iau ac mae disgyblion o bob oed yn cynnal nosweithiau llawen byrlymus yn y gymuned. Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac yn llais pwrpasol i'r disgyblion. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n unigolion moesegol trwy'r cyfleoedd niferus i godi arian at elusennau, yn benodol y gweithgareddau gwerthfawr a drefnir yn flynyddol gan ddisgyblion Blwyddyn 11 lle llwyddir i godi miloedd o bunnoedd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae bron bob athro yn llwyddo i sefydlu perthnasoedd gwaith addas a chynhaliol gyda'u disgyblion. Mae hyn yn creu awyrgylch cadarnhaol ac ysgogol ar gyfer dysgu. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon adnabyddiaeth dda iawn o'u disgyblion. Llwyddant i reoli ymddygiad disgyblion yn ddidrafferth ac mae hiwmor iach yn nodwedd werthfawr o'r berthynas rhyngddynt.

Mae gan lawer o athrawon wybodaeth bynciol gadarn a chyfoes ac, yn yr achosion gorau, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus wrth esbonio cynnwys pynciol a chysyniadau yn glir. Defnyddiant iaith naturiol gyfoethog ac idiomatig sydd yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fedrau llafaredd disgyblion. Defnyddiant ystod o ddulliau ac adnoddau sydd yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio tasgau sydd yn adeiladu'n fuddiol ar ei gilydd ac yn arwain at gynnydd cadarn. Mewn gwersi cerddoriaeth, er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd i ymarfer y grefft o osod cerdd dant trwy osod geiriau a chyfansoddi cyfalaw.

Nodwedd ardderchog o waith athrawon yw'r ffordd y maent yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i'r ysgol. Mae llawer o athrawon yn meddu ar fethodoleg addysgu dwyieithog effeithiol a gwnânt ddefnydd cynnil o Saesneg i gynnwys disgyblion sy'n llai hyderus yn y Gymraeg yn llawn yn y wers. Mae hyn yn golygu bod bron bob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o ran eu medrau a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mewn lleiafrif o wersi, mae gan yr addysgu nodweddion rhagorol. Mae gan yr athrawon frwdfrydedd heintus am eu pynciau ac mae'r addysgu yn ysbrydoledig. Mae'r athrawon hyn yn llwyddo i gynyddu'r her yn fedrus gan ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion mewn camau bychain. Yn sgîl hyn, mae disgyblion yn mwynhau eu dysgu yn fawr ac yn gwneud cynnydd arwyddocaol o'u mannau cychwyn. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel, yn enwedig o ran y disgyblion mwyaf galluog. Nid yw gweithgareddau'n herio'r disgyblion ddigon ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Mae llawer o athrawon yn holi cwestiynau sy’n ysgogi disgyblion i ddatblygu eu hymatebion a’u cymell i ddod i’w casgliadau eu hunain, er enghraifft wrth geisio canfod ystyron sydd ymhlyg mewn gweithiau llenyddol, fel yn y gwersi Cymraeg wrth drafod y themâu sydd ymhlyg yn y gerdd ’Walker’s Wood’ gan Myrddin ap Dafydd. Nid yw’r athrawon hyn yn bodloni ar yr ateb cyntaf a cheisiant sicrhau bod disgyblion yn cyfiawnhau eu hatebion. Nid yw ychydig o athrawon, fodd bynnag, yn gwirio dealltwriaeth disgyblion ddigon wrth i wersi fynd rhagddynt. O ganlyniad nid oes gafael gadarn gan ychydig o ddisgyblion ar gysyniadau allweddol.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol, sydd yn seiliedig ar feini prawf pendant ac yn cynnig camau gwella pendant i’r disgyblion. Yn yr achosion gorau, mae’r adborth hwn yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwaith a’i wella. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae’r sylwadau yn rhy arwynebol ac nid yw’r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwella eu gwaith. Nid yw ychydig o athrawon yn rhoi digon o sylw i gywiro camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg yn ddigon cyson ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn ailadrodd yr un camgymeriadau.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r cwricwlwm ysgogol a phwrpasol sy’n darparu profiadau cadarnhaol iawn i’r disgyblion. Mae amrywiaeth atyniadol o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yn diwallu diddordebau a galluoedd disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyrsiau amaethyddiaeth a chyfryngau digidol rhyngweithiol. Mae’r ysgol yn ymateb yn hyblyg i ddyheadau disgyblion wrth ystyried y cyrsiau a gynigir. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn ymrwymo’n frwd i’r cyfleoedd a ddarperir. Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gyda choleg lleol a darparwyr eraill er mwyn ehangu dewisiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

Mae’r ysgol yn trefnu rhaglen atyniadol o brofiadau sy’n cyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft teithiau diwylliannol, gweithgareddau mentergarwch, cystadlaethau areithio a chystadleuaeth adrodd stori ‘Gwobr Y Cyfarwydd’.

Mae cyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr i ymestyn profiadau'r disgyblion mwyaf galluog, fel cystadleuaeth gwyddoniaeth a dosbarthiadau meistri mathemateg a drefnir gan brifysgol leol. Mae darpariaeth arbennig hefyd ar gyfer y disgyblion mwy bregus lle trefnir profiad gwaith dros gyfnod mewn bwyty lleol a chydweithio effeithiol gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae adrannau’n cynllunio rhaglenni dysgu diddorol a chreadigol sy’n ymdrin â bro'r ysgol yn y lle cyntaf cyn troi at Gymru a thu hwnt. Mae hyn yn cyfrannu at greu dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, maent yn esbonio tarddiad enwau lleoedd ym Mhen Llŷn yng nghyd-destun chwedloniaeth Cymru. Mae trefniadau gwerthfawr gan yr ysgol i hyrwyddo diwylliant yr ardal trwy weithgareddau fel gweithdai clocsio, cyfrannu at bapur bro, eisteddfodau a nosweithiau llawen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymrwymiad a diddordeb y disgyblion yn eu gwaith.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n fuddiol gyda’i hysgolion cynradd partner i sicrhau cynhaliaeth i ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio bwriadus i ddatblygu medrau’r disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd yn gyfyngedig.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr o ymyraethau pwrpasol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau gwan i gyrraedd eu targedau personol. Mae'r ysgol yn grwpio disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth a chefnogaeth addas.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd yn gadarn yn y pynciau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn y pynciau ar wahân i Gymraeg a Saesneg yn sicrhau eu bod yn ymestyn eu huwch fedrau darllen ac ysgrifennu yn ddigonol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh sylfaenol gan gynnwys defnyddio bwrdd-gyhoeddi a chasglu a dadansoddi data i greu graffiau. Mae ychydig o gyfleoedd cyfoethog i ddatblygu uwch fedrau TGCh, gan gynnwys defnyddio fformiwlâu cymhleth a gwaith dylunio trwy gyfrifiadur. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol drosolwg digon strategol o ran datblygiad y medrau ar draws y cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Nodwedd eithriadol o Ysgol Botwnnog yw'r modd y mae pawb sy'n aelod o'r gymuned glòs, ofalgar hon yn llwyr ymroddedig i gefnogi pob disgybl i ddatblygu'n ddinasyddion cyflawn. Mae'r nod sylfaenol hon yn arwain at ddarpariaeth gefnogol gyflawn o'r radd flaenaf i bawb.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr a chyson i olrhain presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Trwy gydweithio llwyddiannus gyda rhieni a'r swyddog lles, mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel. Arf arbennig o effeithiol sydd yn cynorthwyo arweinwyr i godi safonau cyflawniad disgyblion yw'r gyfundrefn olrhain a monitro cynnydd. Mae'n darparu gwybodaeth hynod fanwl a defnyddiol i ddisgyblion ac i athrawon. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth yn effeithiol ac yn darparu cefnogaeth wedi'i theilwra'n bersonol i ddisgyblion unigol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael iddynt a'u hadnabyddiaeth o bob disgybl, mae'r ysgol yn darparu amrediad o ymyraethau a threfniadau cymorth bwriadus i ddisgyblion. Nodwedd bwerus yw dull llawer o athrawon o deilwra eu gwersi ar gyfer unigolion er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd chwim yn eu medrau a gwybodaeth ar gyfer arholiadau allanol.

Mae'r ysgol hefyd yn rhoi cefnogaeth hynod effeithiol i ddisgyblion sydd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl a hunanddelwedd. Drwy'r trefniadau 'Gweithgor iechyd meddwl Botwnnog' (GIMBOT), y siop siarad, yr Hafan a'r Gymorthfa, mae gan ddisgyblion bregus fannau arbennig i fynd a chânt gefnogaeth sensitif a gwerthfawr iawn gan staff.

Mae cefnogaeth ac arweiniad i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn nodwedd gref. Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod y disgyblion hyn yn gadarn. Mae gwybodaeth gynhwysfawr yn cael ei rhannu'n briodol gyda staff ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion hyn wedi'u cefnogi'n dda iawn. Gwneir trefniadau amgen addas ac apelgar i ddisgyblion sydd yn methu ymdopi â gofynion cwricwlwm llawn.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ystod eang o asiantaethau cymorth i atgyfnerthu'r gwaith cefnogi sydd yn digwydd yn yr ysgol. O ganlyniad i'r cyswllt arbennig gyda nifer o asiantaethau allanol fel Trac, y nyrs ysgol, swyddog ieuenctid a swyddog heddlu'r ysgol, mae'r ysgol yn ofalgar a chynhwysol.

Mae llwyddiant yr ysgol i ddatblygu rhinweddau personol y disgyblion i'w weld yn eglur yn yr agweddau cadarnhaol sydd gan y rhan fwyaf ohonynt tuag at eu gwaith, at eu cyfoedion ac oedolion. Ceir darpariaeth lwyddiannus i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Gwneir hyn trwy wasanaethau'r ysgol, siaradwyr gwadd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach yn addas ac mae ffreutur yr ysgol yn darparu opsiynau priodol. Mae pynciau ar y cwricwlwm fel addysg gorfforol, gwyddoniaeth a thechnoleg bwyd yn cyfrannu'n addas at hyn ac mae amrediad gwerthfawr o chwaraeon. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda chlybiau chwaraeon ar draws y gogledd er mwyn ehangu'r cyfleoedd a gaiff disgyblion i gymryd rhan mewn ystod o gampau. Cynigia'r ysgol ddewisiadau apelgar o fwydydd iach.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau llwyddiannus i gyfathrebu'n effeithiol â rhieni. Yn achlysurol, mae'r ysgol yn cynnig cyfarfodydd buddiol i ganolbwyntio ar agwedd benodol fel diogelwch ar y we. Mae rhieni'n canmol yr ymateb buan a'r gweithredu effeithiol gan yr ysgol i'w pryderon. Mae adroddiadau i rieni ar gynnydd disgyblion yn briodol.

Mae disgyblion yn ymgymryd yn effeithiol â rolau arwain ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion yn trefnu gweithgareddau amrywiol er mwyn codi arian i gyfrannu at osod diffibriliwr yn y pentref a'r ysgol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol a gwersi Bagloriaeth Cymru yn chwarae rhan allweddol i ddatblygu medrau cymdeithasol eithriadol y disgyblion. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth hon yn eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer byd gwaith a bywyd fel oedolyn. Mae'r ysgol yn hybu creadigrwydd disgyblion yn ddeheuig drwy gynnig cyfleoedd i bawb gyfrannu mewn amryfal ffyrdd i'r sioe ysgol ac eisteddfod yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arweinydd didwyll ac egnïol sydd yn uchel ei barch o fewn cymuned yr ysgol. Medda ar weledigaeth glir i ddatblygu unigolion sydd yn ddinasyddion cyflawn mewn cymuned, ofalgar a Chymreig lle mae bob disgybl yn cyfri. Caiff gefnogaeth gref gan y dirprwy bennaeth sydd â'r un weledigaeth, ac sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar gyfundrefnau lles yr ysgol. Mae gan y tîm rheoli ddisgwyliadau uchel o bawb yn yr ysgol ac mae gweledigaeth y pennaeth wedi ei rhannu yn llwyddiannus gyda'r llywodraethwyr, rhieni, staff a disgyblion. Mae ethos gwaith tîm pwrpasol o fewn y staff. Dros y tair blynedd diwethaf, mae arweinyddiaeth gref ar bob lefel wedi arwain at lwyddiannau amlwg mewn ardaloedd pwysig o waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys meithrin agweddau cadarnhaol iawn at waith ymhlith y disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu a chynnydd cadarn yn safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae rolau a chyfrifoldebau rheolwyr ar bob lefel wedi eu diffinio'n glir a'u dosrannu'n deg ac mae llinellau atebolrwydd yn amlwg. Mae rheolwyr yn deall yn iawn yr hyn

sydd yn ddisgwyliedig ohonynt ac maent yn gosod targedau uchelgeisiol i'w hunain a'r rhai y maent yn eu rheoli. Adolygir cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn rheolaidd trwy raglen fuddiol o gyfarfodydd cyson sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae trafodaethau yn y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau disgyblion a materion dysgu ac addysgu. Maent yn arwain at bwyntiau gweithredu defnyddiol sy'n cael eu monitro'n briodol mewn cyfarfodydd dilynol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau eraill i gyfoethogi darpariaeth yr ysgol a phrofiadau'r disgyblion.

Mae diwylliant iach o ddysgu proffesiynol ar y cyd yn datblygu yn yr ysgol. Mae athrawon yn elwa ar ystod o weithgareddau gwerthfawr, fel cyfranogi mewn sesiynau rhannu arfer dda yn yr ysgol ac yn rhanbarthol. Cynigir rhaglen eang o gyrsiau hyfforddi mewnol sydd yn ymateb yn ystyrlon i flaenoriaethau gwella ysgol ac adrannol. Ar sail hyfforddiant i ddatblygu medrau llafar a meddwl disgyblion, mae adran y Gymraeg yn gwneud defnydd effeithiol iawn o bartneriaid siarad yn eu gwersi. Yn yr ysgol, er enghraifft, caiff athrawon gyfleoedd buddiol i weithio mewn parau er mwyn rhannu a chyfoethogi eu profiad o addysgu. Ar sail y gweithgareddau hyn, mae hyder athrawon i arbrofi â dulliau addysgu newydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon pendant i fonitro effaith hyfforddiant ar wella ansawdd yr addysgu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol yn rhai priodol a darperir hyfforddiant sydd yn ymateb yn addas i dargedau athrawon unigol. Mae'r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion, y safonau a gyflawnir ganddynt ac ar ansawdd yr addysgu yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gorff llywodraethol effeithiol sydd â dealltwriaeth gadarn o'i rôl fel ffrind beirniadol. Mae aelodau'r corff yn cynnig cefnogaeth frwd i'r ysgol, ond maent hefyd yn fodlon herio lle bo angen. Mae ganddynt ddealltwriaeth lawn o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ac maent yn chwarae rôl flaenllaw ym mhrosesau gwella'r ysgol.

Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol yn effeithiol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae effaith y prosesau gwella hyn yn amlwg, i sicrhau bod disgyblion yn gyffredinol yn gwneud cynnydd cadarn o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Dadansoddir data mewnol ac allanol yn drylwyr iawn gan reolwyr ar bob lefel. Maent yn adnabod cryfderau i'w rhannu ynghyd â'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau sicrhau ansawdd defnyddiol. Gwneir defnydd buddiol o'r wybodaeth a gesglir o'r gweithgareddau hyn sydd yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a chywain barn rhieni, disgyblion a staff. O ganlyniad, mae gan lawer o reolwyr ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ac mae cynlluniau pwrpasol ar lefel ysgol ac adrannol i fynd i'r afael â'r rhain. Fodd bynnag, nid yw ychydig o arweinwyr canol wedi bod mor effeithiol yn gwella ansawdd yr addysgu er mwyn codi safonau. Yn ogystal, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn canolbwyntio digon ar farnu safonau medrau disgyblion nac ar arfarnu ansawdd yr addysgu yn ôl ei effaith. Mewn ychydig o feysydd, fel cynllunio ar gyfer datblygu medrau, nid oes gan yr ysgol orolwg digon strategol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau a gwariant yn ofalus. Caiff y ddarpariaeth ei monitro'n fanwl er mwyn sicrhau y gwerth gorau posibl am arian, ac

mae cysylltiad agos rhwng blaenoriaethau gwella'r ysgol a phenderfyniadau cyllidol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae’r ysgol wedi llwyddo i gynnal a chodi safonau mewn llawer o agweddau ar fywyd yr ysgol tra’n torri maint y ddyled yn sylweddol. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol ddyled ariannol fechan sydd wedi ei thrwyddedu gan yr awdurdod addysg lleol. Gwna’r ysgol ddefnydd buddiol o grantiau i gefnogi’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwyaf bregus yr ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  16/12/2019